**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Emma Rourke, Ystadegydd Gwladol Dros Dro
Darren Tierney, Ysgrifennydd Parhaol
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Drwy e-bost

10 Tachwedd 2025

Annwyl Emma a Darren,

Cyfrifiad 2031

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 28 Hydref yn tynnu sylw at yr ymgynghoriadau diweddar a lansiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Trafododd y Pwyllgor Cyllid y materion a godwyd gennych yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd.

O ran ymgynghoriad ar bynciau Cyfrifiad 2031 y SYG, credwn ei bod yn bwysig bod y Cyfrifiad yn darparu ar gyfer casglu data cywir ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is er mwyn sicrhau bod darlun manwl o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pob ardal yn cael ei ddarparu.

Nodaf hefyd eich gwahoddiad i gyfarfod ag ystadegwyr y SYG yn Senedd y DU ddydd Mawrth 4 Tachwedd i drafod yr ymgynghoriadau hyn yn fanylach. Gan fod hyn yn digwydd ar ddiwrnod busnes yn Senedd Cymru, nid oeddwn i nac aelodau eraill y Pwyllgor yn gallu bod yn bresennol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â chi e dymunech gynnal digwyddiad tebyg yn Senedd Cymru yn y dyfodol.

Gan fod y materion dan sylw yn cwmpasu cylchoedd gwaith nifer o Bwyllgorau’r Senedd, anfonaf gopi o’r ymateb hwn at Fforwm Cadeiryddion y Senedd fel bod Cadeiryddion eraill yn ymwybodol.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Senedd Cymru
Welsh Parliament